Law
Commission
Reforming the law

***Adolygiad cofrestru tir***

Awgryma trafodaethau â'r Gofrestrfa Tir y gallai fod cyfle i adolyguDeddf Cofrestru Tir 2002.

Disodlodd y Ddeddf Ddeddf Cofrestru Tir 1925 a chyflwynodd yr egwyddor – un hirsefydlog mewn awdurdodaethau cyfraith gwlad eraill – lle cofrestrir teitl, fe gyflwynir y teitl gan gofrestriad. Roedd y Ddeddf hefyd yn cynnwys darpariaethau a baratodd y ffordd ar gyfer trawsgludo electronig

Bron i ddeng mlynedd ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym, mae rhai materion yn barod i'w hailystyried, i sicrhau bod y Ddeddf yn cwrdd â'i hamcanion gwreiddiol. Dau o'r rhai pwysicaf yw:

- Effaith y gwarant teitl mae'r gofrestr yn ei ddarparu, ac effaith twf twyll ar y warant honno yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae nifer o achosion wedi dangos nad yw effaith darpariaethau'r Ddeddf yn glir, a bod angen eglurhad.

- Yr angen i adolygu'r darpariaethau perthnasol i drawsgludo electronig yng ngoleuni datblygiadau technegol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac o'n dealltwriaeth o sut mae trawsgludo electronig wedi symud yn ei flaen mewn awdurdodaethau eraill.

Mae gennym ddiddordeb mewn gwybod a fyddai ymarferwyr trawsgludo, yn ogystal â'r rhai sydd â phrofiad o'r broses a hefyd o effaith twyll, yn cefnogi'r farn y dylai Comisiwn y Gyfraith ymgymryd â'r prosiect hwn.